Hudson Taylor 1832–1905

Sefydlydd Cymdeithas y Genhadaeth Dramor

Ganwyd Hudson Taylor yn Barnsley, De Swydd Efrog, ar 21 Mai 1832 i deulu o Fethodistiaid. Cafodd ei hen daid, James, dröedigaeth ym 1776 yn Staincross Ridge wrth fyfyrio ar adnod o'r Beibl, ac yr oedd ei dad yn fferyllydd ac yn bregethwr poblogaidd gyda'r gylchdaith Wesleaidd yn Barnsley.

Pan oedd Hudson Taylor yn fachgen ifanc byddai'n gwrando ar bregethwyr yn y lolfa yn fferyllfa'r teulu yn Cheapside yn trafod cenhadaeth dramor a'r sefyllfa yn China. Fel plentyn byddai'n aml yn datgan, 'Pan fyddaf yn oedolyn rwyf am fynd yn genhadwr i China.' Er bod ganddo ddiddordeb mewn Cristnogaeth er pan oedd yn ifanc ni chafodd dröedigaeth hyd nes ei fod yn 17 oed. Digwyddodd hynny wrth iddo ddarllen tract Cristnogol. Dyheai am berthynas ddyfnach gyda Duw ac wrth iddo weddïo un noson fe glywodd lais yn dweud, 'Dos ar fy rhan i China.' Penderfynodd mai dyna fyddai yn ei wneud. Dechreuodd ddysgu'r iaith Fandarin trwy gael copi o Efengyl Luc yn yr iaith honno. Cafodd fenthyg llyfr *China* gan weinidog lleol a chanolbwyntiodd ei feddwl ar genhadaeth trwy feddygaeth. Aeth i gynorthwyo Dr Hardey yn Hull lle yr astudiodd feddygaeth gan ddysgu i ymddiried mwy yn Nuw. Gweithiai yn un o ardaloedd tlotaf Hull ac un nos Sul aeth at wely angau un o'r cleifion. Wrth weld tlodi dychrynllyd y teulu rhoddodd iddynt ei ddarn olaf o arian.

Yn rhyfeddol y bore wedyn cyrhaeddodd y postman gyda pharsel gan gyfrannwr dienw ac ynddo bâr o fenig a hanner sofran. 'Clod i'r Arglwydd', bloeddiodd, 'Pedwar cant y cant am fuddsoddiad o ddeuddeg awr – dyna log ardderchog.'Cadarnhaodd hyn ei ffydd a'i argyhoeddiad y dylai fynd i China.

Cafodd ei dderbyn i Gymdeithas Efengylu China (Chinese Evangelisation Society) ac aeth i Lundain i dderbyn rhagor o hyfforddiant gan hwylio i China ym mis Medi 1853. Treuliodd saith mlynedd yn Shanghai a Ningpo cyn iddo

orfod dychwelyd i ganolfan y Gymdeithas Genhadol Lundeinig (London Missionary Society) oherwydd salwch. Yn y cyfnod hwn daeth yn ddigon rhugl yn yr iaith i ddechrau pregethu. Gwnaeth dri phenderfyniad pwysig. 1. Penderfynodd wisgo fel y brodorion. Hwylusodd hyn ei waith. 2. Priododd ym 1858 gyda Maria Dyer a oedd yn athrawes genhadol. Cawsant chwech o blant ond bu tri ohonynt farw cyn i'w mam farw ym 1870. 3. Ymddiswyddodd o Gymdeithas Efengylu China oherwydd eu bod wedi mynd i ddyled. Ar waliau ei lolfa rhoddodd ddau air Hebraeg sef Ebeneser (Hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd ni) a Jehovah-Jireh (Bydd yr Arglwydd yn darparu).

Dychwelodd i Lundain lle yr astudiodd feddygaeth ymhellach; dechreuodd gyfieithu'r Testament Newydd i dafodiaith y Ningpo ac annog Cristnogion eraill i weithio yn China. Ym 1865 tra oedd yn aros yn Brighton penderfynodd sefydlu – gyda £10 yn y banc – Cenhadaeth Fewnol China (China Inland Mission) ac aeth â 18 o genhadon i Shanghai i ddechrau ar y gwaith. Erbyn 1872 yr oedd 13 o orsafoedd cenhadol, 19 o genhadon a chant o weithwyr Chineaidd. Tyfodd y gwaith yn aruthrol a daeth rhoddion ariannol o America, Sweden ac Awstralia. Aeth y gwaith rhagddo yn hwylus ac er bod gelyniaeth tuag at y Cristnogion ni fu fawr o wrthdaro hyd Terfysg y Bocser ym 1900. Bryd hynny, ymosodwyd yn ffyrnig ar estroniaid a lladdwyd 58 o genhadon a 21 o blant. Torrodd Taylor ei galon er ei fod wedi amau bod gwrthwynebiad cynyddol i'w waith. Dychwelodd i China am y tro olaf ym 1904 lle y bu farw ar 1 Mehefin 1905 yn Changsha, Hunan, a chladdwyd ei weddillion yn Chinkiang.